



## NEWIDWYR

# Adeiladu eich Brand Personol ar gyfer Cyflogaeth Gynaliadwy



Prifysgol Cymru  
Y Drindod Dewi Sant  
**University of Wales**  
Trinity Saint David

**CYFLWYNIAD MODIWL**

# Cynnwys

3. Trosolwg o'r Modiwl

5. Strwythur y Modiwl

6. Llywio drwy'r Modiwl

Ni yw Prif Weithredwyr ein cwmnïau ein hunain. ME inc.

I fod mewn busnes heddiw, ein gwaith pwysicaf yw bod yn brif farchnatwr y brand a elwir yn CHI.

*Tom Peters*



**BRANDIAU** ydyn ni i gyd.

Mae gyda ni ein mantolenni deallusol a'n henwau brand ein hunain, rhaid i ni fuddsoddi yn ein hunain a marchnata'n hunain.

# Croeso i'r Modiwl

## Newidwyr: Adeiladu eich Brand

## Personol ar gyfer Cyflogaeth Gynaliadwy

Prif nod y modiwl yw eich cefnogi i ddatblygu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen ar gyfer gwydnwch gyrfa a datblygu proffesiynol ar gyfer cyd-destun gwaith yn y dyfodol.

Pa un a ydych chi'n gwybod hynny ai peidio, mae gennych chi frand personol. Pan fyddwch chi'n Gw glo eich hun, beth ydych chi'n ei weld? Os oes gennych chi ddét neu gyfweiliad am swydd, mae'n eithaf tebygol y bydd rhywun yn eich Gw glo chi i ddysgu mwy amdanoch chi a chanlyniadau'r chwilio yw'r argraff gyntaf y byddan nhw'n ei chael ohonoch chi. Ydy hon yn argraff dda? Ydy'r wybodaeth rydych chi'n ei rhannu ar safleoedd y cyfryngau cymdeithasol yn gyson? Ydych chi am ganiatáu i'ch enw da ar-lein gael ei fywyd ei hun neu ydych chi am reoli'r naratif?

Gyda'r twf yn y cyfryngau cymdeithasol a'r economi gig, mae'n hanfodol i bawb gofleiddio brandio personol ac er y gallai ymddangos fel ymarfer o hunan-hyrwyddo neu falchder personol, o'i wneud yn iawn gall fod yn llawer mwy na hynny.

**“Eich brand yw'r hyn mae pobl yn ei ddweud amdanoch pan nad ydych chi yn yr ystafell.”**

*Jeff Bezos*

Gall datblygu eich brand fod yn ymarfer personol mewn sefydlu hyder, hygrededd a dewrder, yn ogystal â'ch helpu chi i ddiffinio eich blaenoriaethau a chanolbwyntio ar yr elfennau o'ch bywyd rydych chi'n eu mwynhau fwyaf.

### **Pam fod hyn yn bwysicach nag erioed**

Yn ôl arolwg CareerBuilder yn 2018, mae 70% o gyflogwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i sgrinio ymgeiswyr yn ystod y broses gyflogi, ac mae 43% o gyflogwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i wirio eu gweithwyr presennol. Rheswm arall bod brandio personol yn werthfawr yw nad yw'r economi gig yn mynd i ddiflannu yn y dyfodol agos.

Ar gyfartaledd, mae unigolyn yn newid swydd bob 2 i 3 blynedd ac mae gwaith llawrydd a chontract yn parhau ar gynydd. Dywed Diane Mulcahy, awdur *The Gig Economy*,

*“Dim on un tueddiad ydym ni’n ei weld yma, sef bod yr economi gig yn fawr ac yn tyfu. Bydd cwmnïau’n gwneud unrhyw beth posibl i osgoi cyflogi gweithwyr llawn amser. Ar ben hynny does dim sicrwydd swydd bellach, ac*

*mae gweithwyr yn gynyddol ymwybodol fod angen iddyn nhw weithio’n wahanol os ydyn nhw am greu unrhyw sefydlogrwydd iddyn nhw eu hunain.”*

O ganlyniad, mae angen i weithwyr allu cyfleu’n glir pwy ydyn nhw a beth maen nhw’n ei wneud i dynnu sylw cleientiaid a chyflogwyr posibl. Os nad ydych chi’n rheoli eich brand personol yn effeithiol, yna mae risg y cewch eich gadael ar ôl.



# Strwythur Modylau

Mae gan y modiwl 48 awr o ddysgu a amserlennir, bydd tiwtor eich modiwl yn esbonio sut y trefnir hyn rhwng sesiynau wyneb yn wyneb (yn bersonol neu ar-lein) a'r defnydd o'r cynnwys digidol sydd ar gael ar Moodle. Rhennir y cynnwys ar-lein rhwng y 4 uned ganlynol:

## Y pedair uned yw:

1. Eich Brand Chi (Pwrpas a Chynnig)
2. Byd Bach (Pobl)
3. Cyfle'n Codi (Pecynnu)
4. The Pursuit of Happiness (Dyfalbarhad)

*Mae'r modwl yn cynnwys dau asesiad, e-bortffolio ac aseiniad, sydd i'w weld yn y Llawlyfr Modwl.*



# Llywio Drwy'r Modwl

Wrth i chi weithio trwy'r cynnwys dysgu hwn, gofynnir i chi wneud gwahanol fathau o weithgareddau dysgu i wella a chefnogi eich dealltwriaeth o'r deunydd. Mae'n bwysig eich bod yn ymgysylltu'n llawn â'r gweithgareddau dysgu hyn gan mai dim ond un rhan o'r broses ddysgu yw caffael gwybodaeth – drwy fod yn gyfranogwr gweithredol yn eich dysgu drwy'r gweithgareddau hyn byddwch yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach a chyfoethocach o'r pynciau a'r cysyniadau a drafodir yn y modiwl.

---

**Pryd bynnag y byddwch chi'n dod ar draws y tasgau a'r eiconau canlynol, mae'n golygu bod angen i chi gwblhau gweithgaredd:**



**Gwirio** - yn rhoi cyfle i chi wirio pa mor dda rydych chi wedi deall y pwnc hyd yn hyn. Mae hunanasesu yn rhan bwysig o'r broses ddysgu gan ei fod yn eich galluogi i atgyfnerthu'r cysyniadau hynny rydych yn eu deall yn dda, ac amlygu unrhyw gamsyniadau and/or meysydd lle gallai fod angen i chi wneud rhywfaint o astudiaeth bellach.



**Myfyrio** - Yn aml, gofynnir i chi oedi ac ystyried syniadau a chysyniadau rydych newydd eu dysgu, er mwyn caniatáu i chi gnoi cil ar y dysgu a dechrau meddwl yn ehangach am sut mae'n cydfynd â'ch disgyblaeth. Er nad yw tasgau Myfyrio fel arfer yn gofyn i chi ysgrifennu unrhyw beth, mae'n bwysig cymryd yr amser i feddwl am y cwestiwn a ofynnir ac wrth gwrs gallwch gofnodi eich meddyliau yn eich nodiadau personol os dymunwch.



**Rhwydwaith** - Ni ddylai dysgu ar-lein fod yn weithgaredd unigol - mae gallu trafod, cydweithio a chymharu eich dealltwriaeth â chyddysgwyr trwy dasg Rhwydwaith yn arf pwerus i wneud y mwyaf o'ch enillion dysgu. Gall gweld bod gan eraill yr un ddealltwriaeth â chi fod yn hwb gwirioneddol i hyder a rhoi sicrwydd i chi eich bod ar y trywydd iawn, ac os yw eraill yn dehongli pethau'n wahanol gall gweld pethau o safbwynt gwahanol fod yr un mor werthfawr.



**Ymgeisiwch** - Mae'r modiwlau hyn yn ymdrin â phynciau a sgiliau sy'n werthfawr ar draws pob disgyblaeth, fodd bynnag byddwch yn gallu deall, gwerthfawrogi a chael y budd mwyaf trwy ystyried sut mae'r dysgu'n cydfynd â'ch disgyblaeth academaidd a'ch credoau a'ch gwerthoedd eich hun. Mae cymhwyso tasgau yn rhoi'r cyfle i chi osod y dysgu mewn cyddestun sy'n berthnasol i chi, ac i gysylltu eich dysgu â'ch nodau bywyd go iawn.

Byddwch yn dod o hyd i bopeth y mae ei angen arnoch ar dudalen Moodle y modwl, lle mae hefyd fforwm holi ac ateb i godi unrhyw bryderon a allai fod gennych wrth symud drwy'r deunydd.



Rydych chi bellach yn barod i ddechrau dysgu.

**Pob lwc!**



**Prifysgol Cymru**

Y Drindod Dewi Sant

**University of Wales**

Trinity Saint David

---